CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Mawrth 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng E Williams, S Hughes,N Jones, D Gwyn, A Mummery, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Cyng D I Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng N Jones.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06.02.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir, Cyng D Gwyn yn cynnig a Cyng S Hughes yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Nid oedd Playquest yn gallu gosod yr offer mis diwethaf. Maent yn gobeithio ei wneud cyn y Pasg.
4.2	**Ymateb Llywodraeth Cymru** - Disgwyl ymateb gyda dyddiadau newydd i drefnu cyfarfod
4.3	**Lon Bryn Ffynnon** - Dywedodd Cyng A Mummery bod Dafydd Rowlands (Adran Tai) am cael rhywun i ail edrych ar y gwaith.
4.4	**Gor-yrru a materion Penmynydd** - Nid yw y Cyngor wedi derbyn ymateb gan Alun Roberts, Adran Priffyrdd. Gofynwyd i'r Clerc dod a'r mater at sylw y Prifweithredwr, Mr Huw Percy a Cyng Bob Parry.
4.5	**Cronfa Gwella Amgylchedd a Chymunedau.** Darllenwyd ymateb gan Cyngor Ynys Môn yn dweud ni fydd yn bosib cael grant at tarmacio y maes parcio (Canolfan Penmynydd) o dan y gronfa hwn
4.6	**BDO Archwilwyr Allanol.** Mae'r Clerc wedi derbyn eglurhad o'r gwahaniaethau yn y costau. Mae BDO wedi cyfeirio'r mater yn ymwneud â bod y cyfrifon yn hwyr i Swyddfa Archwilio Cymru.
4.7	**Y Wefan** Bydd y Clerc yn trefnu i linc i wefan Ffermwyr Ifanc Môn mynd ar wefan y Cyngor
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Cynllunio
5.1	41C137A/DA Afallon, Penmynydd - gwybodaeth yn cadarnhau bod y cais wedi ei ganiatau
5.2	Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol - gwybodaerth yn unig
	Adran Tai
5.3	**Cronfa Gwella'r Amgylchedd a Chymunedau** - gweler 4.5
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Gyrru Ymlaen - Llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i Aethwy**. Ffurfiwyd pwyllgor i achub Llyfrgell Porthaethwy gyda'r bwriad o gynnal digwyddiadau yn yr adeilad. Dywedodd y Cynghorydd M Jones y bydd angen mwy o wybodaeth wrth i faterion symud ymlaen.
	Llofnod **Cadeirydd** **03.04.19**

6.2	**Cyngor Gwynedd Gwasanaeth Archwilio**. Cytunwyd i dderbyn cynnig Gwynedd i archwilio 2018/19 (o gwmpas £150)
6.3	**Llywodraeth Cymru** - gweler 4.2
6.4	**Torri coed Penmynydd** - Nodwyd bod Scottish Utilities ar ran Scottish Power wedi torri coed yn ôl yn hytrach na dim ond tocio. Deallir bod y mater eisoes wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Ceisiadau am roddion. Mae'r Cyngor wedi derbyn 5 cais. Cytunwyd i gynnig £25 i Môn FM Cyng A Mummery yn cynnig a Cyng D Gwyn yn eilio.
7.2	Cytunwyd i dalu aelodaeth Unllais Cymru am 2019 £73.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Rheolau Sefydlog a Cyllid. Cytunwyd i ail edrych ar rhain yn y cyfarfod nesaf
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Bws yn parcio wrth ymyl troad Pentre Berw
9.2	Trefnu hysbysebu un sedd wâg yn dilyn ymddiswyddiad Rhys Davies
9.3	Cwyn am llwybr Tyddyn Felin
9.4	Twll yn y lôn Penmynydd (wrth ymyl y lle glo)
	Llofnod **Cadeirydd** **03.04.19**